Darwin Gray Polisi Preifatrwydd

**Cyflwyniad**

**Croeso i rybudd preifatrwydd Darwin Gray.**

Mae Darwin Gray yn parchu'ch preifatrwydd ac yn ymrwymedig i warchod eich data personol.

Bydd y rhybudd preifatrwydd hwn yn rhoi gwybod i chi sut rydym yn gofalu am eich data personol pan ydych yn ymweld a'n gwefan, www.darwingray.com, ac yn defnyddio ein gwasanaethau. Mae hefyd yn dweud wrthych am eich hawliau preifatrwydd, a sut mae'r gyfraith yn eich amddiffyn chi.

Mae'n bwysig eich bod chi'n darllen y rhybudd preifatrwydd hwn ynghyd ag unrhyw rybudd preifatrwydd arall neu rybudd prosesu teg y gallwn ei ddarparu ar adegau penodol, fel eich bod yn gwbl ymwybodol o sut a pham yr ydym yn defnyddio'ch data personol. Mae'r rhybudd preifatrwydd hwn yn ychwanegu at unrhyw rybuddion eraill, ac ni fwriedir iddo eu hatal.

Nid yw'r wefan hon wedi'i bwriadu ar gyfer plant ac nid ydym yn casglu data sy'n ymwneud â phlant yn fwriadol.

**Gwybodaeth bwysig a phwy ydym ni**

**Rheolwr**

Darwin Gray LLP yw'r rheolwr ac yn gyfrifol am eich data personol (cyfeirir ato ar y cyd fel Darwin Gray, "ni" neu "ein" yn y rhybudd preifatrwydd hwn).

Rydym wedi penodi tîm diogelu data sy'n gyfrifol am oruchwylio cwestiynau mewn perthynas â'r rhybudd preifatrwydd hwn. Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y rhybudd preifatrwydd hwn, gan gynnwys unrhyw geisiadau i arfer eich hawliau cyfreithiol, cysylltwch âg aelod o'r tîm diogelu data gan ddefnyddio'r manylion a nodir isod.

**Manylion cyswllt:**

Cyfeiriad ebost: database@darwingray.com

Cyfeiriad: Darwin Gray LLP,  9 Cathedral Road, Caerdydd, CF11 9HA

Rhif Ffôn: 029 2082 9100

Mae gennych yr hawl i wneud cwyn ar unrhyw adeg i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO), awdurdod goruchwyliol y DU ar gyfer materion diogelu data (www.ico.org.uk). Fodd bynnag, byddem yn gwerthfawrogi'r cyfle i ddelio â'ch pryderon cyn i chi fynd i'r ICO felly cysylltwch â ni yn y lle cyntaf.

**Egwyddorion Diogelu Data**

Byddwn yn cydymffurfio â chyfraith diogelu data. Mae'r ddeddf yn dweud bod rhaid i'r wybodaeth bersonol a gadwn amdanoch chi:

1. Gael ei ddefnyddio yn gyfreithlon, yn deg ac mewn ffordd dryloyw.
2. Fod wedi'i gasglu yn unig at ddibenion dilys yr ydym wedi'u hesbonio'n eglur i chi ac na fydd yn cael ei ddefnyddio mewn unrhyw ffordd sy'n anghydnaws â'r dibenion hynny.
3. Fod yn berthnasol i'r dibenion yr ydym wedi dweud wrthych amdanynt ac yn gyfyngedig i'r dibenion hynny yn unig.
4. Fod yn gywir ac yn gyfredol.

5. Yn cael ei gadw yn unig cyn belled ag y bo ei angen, ac at y dibenion yr ydym wedi dweud wrthych amdanynt.
6. Yn cael ei gadw'n ddiogel.

**Eich dyletswydd i roi gwybod i ni am newidiadau**

Mae'n bwysig bod y data personol sydd gennym amdanoch chi yn gywir ac yn gyfredol. Rhowch wybod i ni os yw'ch data personol yn newid yn ystod eich perthynas â ni.

**1. Y data a gasglwn amdanoch chi**

Mae data personol, neu wybodaeth bersonol, yn golygu unrhyw wybodaeth am unigolyn y gellir adnabod y person hwnnw ohono. Nid yw'n cynnwys data lle mae'r manylion personol wedi'i ddiddymu (data anhysbys).

Efallai y byddwn ni'n casglu, defnyddio, storio a throsglwyddo gwahanol fathau o ddata personol amdanoch chi, er enghraifft:

- Mae **Data Hunaniaeth** yn cynnwys enw cyntaf, cyfenw, statws priodasol, teitl, dyddiad geni a rhyw.
- Mae **Data Cyswllt** yn cynnwys cyfeiriad bilio, cyfeiriad adref, cyfeiriad e-bost a rhifau ffôn.
- Mae **Data Ariannol** yn cynnwys manylion banc a cherdyn talu.
- Mae **Data Trafodion** yn cynnwys manylion am daliadau i chi ac oddi wrthych a manylion eraill y cynhyrchion a'r gwasanaethau rydych chi yn eu prynu neu eu derbyn gennym ni.
- Mae **Data Technegol** yn cynnwys cyfeiriad protocol y rhyngrwyd (IP), eich data mewngofnodi, math a fersiwn y porwr, gosodiad cylchfa amser a lleoliad, mathau a fersiynau plygiau'r porwr, eich system gweithredu a llwyfan a thechnoleg arall ar y dyfeisiau rydych yn eu defnyddio i gael mynediad at ein gwefan.
- Mae **Data Proffil** yn cynnwys eich diddordebau, dewisiadau ac adborth.
- Mae **Data Defnydd** yn cynnwys gwybodaeth am sut rydych chi'n defnyddio ein gwasanaethau.
- Mae **Data Marchnata a Chyfathrebu** yn cynnwys eich dewisiadau wrth dderbyn deunydd marchnata gennym ni neu drydydd parti a'ch dewisiadau cyfathrebu.
- Mae **Data Personol Sensitif** yn cynnwys manylion am eich hil neu ethnigrwydd, credoau crefyddol neu athronyddol, bywyd rhyw, tueddfryd rhywiol, barn wleidyddol a gwybodaeth am eich data iechyd. Mi all hefyd gynnwys wybodaeth am euogfarnau troseddol.

Rydym hefyd yn casglu, defnyddio a rhannu **Data Agregedig** fel data ystadegol neu ddemograffig at wahanol ddibenion. Efallai y bydd Data Agregedig yn deillio o'ch data personol ond ni chaiff ei ystyried yn ddata personol yn ôl y gyfraith gan **nad** yw'r data hwn yn datgelu eich hunaniaeth yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol. Er enghraifft, efallai y byddwn yn cyfuno'ch Data Defnydd i gyfrifo canran y defnyddwyr sy'n defnyddio nodwedd gwefan benodol. Fodd bynnag, os byddwn yn cyfuno neu gysylltu Data Agregedig gyda'ch data personol fel y gall eich adnabod yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, byddwn yn trin y data cyfunol fel data personol a fydd yn cael ei ddefnyddio yn unol â'r rhybudd preifatrwydd hwn.

**Os na fyddwch yn darparu data personol**

Lle mae angen i ni gasglu data personol yn ôl y gyfraith, neu o dan delerau contract sydd gennym gyda chi a'ch bod yn methu â darparu'r data hwnnw pan ofynnir amdano, efallai na fyddwn yn gallu cyflawni'r contract sydd gennym neu sy'n ddarpar gontract gyda chi (er enghraifft, i

ddarparu gwasanaethau cyfreithiol i chi). Yn yr achos hwn, efallai y bydd yn rhaid i ni ganslo gwasanaeth sydd gennych gyda ni ond byddwn yn eich hysbysu os yw hyn yn wir ar y pryd.

## 2. Sut mae eich data personol yn cael ei gasglu?

Defnyddiwn wahanol ddulliau i gasglu data oddi wrthych ac amdanoch chi, gan gynnwys trwy:

- **Ryngweithiadau uniongyrchol.**

Fe allwch chi roi eich Data Hunaniaeth, Cyswllt ac Ariannol i ni drwy lenwi ffurflenni neu drwy gyfathrebu â ni drwy'r post, ffôn, e-bost neu fel arall. Mae hyn yn cynnwys data personol rydych chi'n ei ddarparu pan fyddwch yn:

- gofyn am amcangyfrif o'r costau ar gyfer ein gwasanaethau;
- gofyn am gyngor cychwynnol am ddim;
- rhoi cyfarwyddyd i ni weithredu ar eich rhan (h.y. ymrwymo i gontract gyda ni);
- tanysgrifio i'n gwasanaeth neu gyhoeddiadau;
- gofyn i ddeunydd marchnata gael ei anfon atoch; neu
- rhoi rhywfaint o adborth i ni.

Mae'n bosibl y byddwch yn rhoi eich Data Sensitif i ni dros y ffôn, drwy e-bost neu fel arall pan fyddwch yn:

- gofyn am amcangyfrif o'r costau ar gyfer ein gwasanaethau;
- ceisio cyngor cychwynnol am ddim; neu
- wrth roi cyfarwyddyd i ni weithredu ar eich rhan.

- **Technolegau neu ryngweithiadau awtomataidd.** Wrth i chi ryngweithio gyda'n gwefan, efallai y bydd ein systemau yn casglu data technegol am eich offer yn awtomatig, gan bori drwy weithredoedd a phatrymau. Rydym yn casglu'r data personol hwn drwy ddefnyddio briwsion a thechnolegau eraill tebyg.

- **Ffynonellau sydd ar gael yn gyhoeddus.** Mae'n bosibl y byddwn yn cael data Hunaniaeth a Chyswllt o ffynonellau cyhoeddus fel Tŷ'r Cwmnïau o fewn y DU a'r UE.

- **Trydydd partïon.** Efallai y byddwn yn derbyn data Hunaniaeth, Cyswllt, Ariannol a Sensitif amdanoch chi gan amryw o drydydd partïon fel y nodir isod:

    - cyfrifwyr, banciau, gweithwyr meddygol broffesiynol, gwasanaethau cymdeithasol, cyrff rheoleiddio neu lywodraethol a chynghorwyr ac arbenigwyr eraill sy'n gysylltiedig â'r gwasanaethau cyfreithiol yr ydym yn eu darparu; a
    - llysoedd Cymru a Lloegr neu unrhyw Lys o awdurdodaeth gymwys.

## 3. Sut rydym yn defnyddio'ch data personol

Byddwn ond yn defnyddio'ch data personol pan fydd y gyfraith yn ein galluogi ni i wneud hynny. Fel arfer, byddwn yn defnyddio'ch data personol yn yr amgylchiadau canlynol:

- Lle mae angen i ni gyflawni'r contract yr ydym ar fin ei ddechrau gyda chi neu yr ydych chi wedi ymrwymo iddo gyda ni.
- Lle bo'n angenrheidiol ar gyfer ein buddiannau cyfreithlon (neu rai trydydd parti) ac nad yw eich buddiannau a'ch hawliau sylfaenol yn goresgyn y buddiannau hynny.
- Lle mae angen i ni gydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol neu reoleiddiol.

**Y dibenion y byddwn yn defnyddio'ch data personol ar ei gyfer**

Rydym wedi nodi isod, mewn fformat tabl, ddisgrifiad o'r holl ffyrdd rydym yn bwriadu defnyddio'ch data personol, a pha rai o'r sylfeini cyfreithiol yr ydym yn dibynnu arnynt i wneud hynny. Rydym hefyd wedi nodi beth yw ein buddiannau cyfreithlon lle bo hynny'n briodol.

Nodwch y gallwn brosesu eich data personol ar gyfer mwy nag un maes cyfreithlon, yn dibynnu ar y pwrpas penodol yr ydym yn defnyddio'ch data. Cysylltwch â ni os oes arnoch angen manylion am y sail gyfreithiol penodol yr ydym yn dibynnu arno i brosesu eich data personol lle mae mwy nag un sail wedi'i nodi yn y tabl isod.

**Defnyddir y termau canlynol yn y tabl isod:**

- Mae **Budd Cyfreithiol** yn golygu diddordeb ein busnes wrth gynnal a rheoli ein busnes i'n galluogi i roi'r gwasanaeth gorau a'r profiad gorau a mwyaf diogel i chi. Rydym yn sicrhau ein bod yn ystyried ac yn cydbwyso unrhyw effaith bosibl arnoch chi (yn gadarnhaol a negyddol) a'ch hawliau cyn i ni brosesu eich data personol ar gyfer ein buddiannau cyfreithlon. Nid ydym yn defnyddio'ch data personol ar gyfer gweithgareddau lle mae yr effaith ar eich buddiannau chi yn fawr (oni bai bod gennym eich caniatâd neu fel arall ble mae'n ofynnol neu'n ôl y gyfraith). Gallwch gael rhagor o wybodaeth am sut yr ydym yn asesu ein buddiannau cyfreithlon yn erbyn unrhyw effaith bosibl arnoch chi trwy gysylltu â ni.
- Mae **Perfformiad Contract** yn golygu prosesu eich data lle bo'n angenrheidiol ar gyfer perfformio contract yr ydych yn rhan ohono, neu gymryd camau ar eich cais cyn neu wrth ichi ymrwymo i gontract o'r fath.
- Mae **cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol neu reoleiddiol** yn golygu prosesu eich data personol lle bo'n angenrheidiol er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol neu reoleiddiol yr ydym yn ddarostyngedig iddo.

| **Pwrpas / Gweithgaredd** | **Math o ddata** | **Sail gyfreithlon ar gyfer prosesu gan gynnwys sail buddiant dilys** |
|---|---|---|
| I'ch cofrestru fel cleient newydd, gan gynnwys cadarnhau eich hunaniaeth | (a) Hunaniaeth<br>(b) Cyswllt | (a) Perfformiad contract gyda chi<br>(b) I gydymffurfio gyda goblygiad gyfreithiol neu reoleiddiol. |
| I ddarparu gwybodaeth neu gyngor sylfaenol ynglŷn â'r gwasanaethau yr ydym yn eu cynnig i chi. | (a) Hunaniaeth<br>(b) Cyswllt<br>(c) Sensitif | (a) Perfformiad contract gyda chi (i weld os fedrwn eich cynorthwyo gyda gwasanaethau cyfreithiol)<br>(b) Yn anghenrheidiol ar gyfer ein buddiannau cyfreithlon (i alluogi ni i ddarparu y |

| | | |
|---|---|---|
| | | gwasanaeth cyfreithiol orau ar eich cyfer)<br>(c) Ar gyfer Data Sensitif, lle rydych wedi rhoi i ni eich cydsyniad penodol i wneud hynny. |
| I reoli taliadau a ffioedd ac i gasglu arian sydd yn ddyledus i ni | (a) Hunaniaeth<br>(b) Cyswllt<br>(c) Ariannol<br>(ch) Trafodion<br>(d) Marchnata a Chyfathrebu | a) Perfformiad contract gyda chi<br>(b) Yn angenrheidiol ar gyfer ein buddiannau cyfreithlon (i adennill dyledion sydd yn ddyledus i ni.) |
| I ddarparu gwasanaethau cyfreithiol i chi | (a) Hunaniaeth<br>(b) Cyswllt<br>(c) Sensitif | (a) Perfformiad contract gyda chi<br>(b) Ar gyfer Data Sensitif, lle rydych wedi rhoi i ni eich cydsyniad penodol i wneud hynny. |
| I reoli ein perthynas â chi sy'n cynnwys:<br>(a) Eich hysbysu am newidiadau i'n telerau neu bolisi preifatrwydd<br>(b) Gofyn i chi adael adolygiad<br>(c) Delio ag unrhyw gwynion | (a) Hunaniaeth<br>(b) Cyswllt<br>(c) Proffil<br>(d) Marchnata a Chyfathrebu | (a) Perfformiad contract gyda chi<br>(b) Angenrheidiol i gydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol<br>(c) Angenrheidiol ar gyfer ein buddiannau cyfreithlon (i gadw ein cofnodion yn gyfredol ac i astudio sut mae cleientiaid yn defnyddio ein gwasanaethau) |
| Gweinyddu a diogelu ein busnes a'r wefan hon (gan gynnwys datrys problemau, dadansoddi data, profi, cynnal a chadw systemau, cefnogi, adrodd a chynnal data) | (a) Hunaniaeth<br>(b) Cyswllt<br>(c) Technegol | (a) Angenrheidiol ar gyfer ein buddiannau cyfreithlon (ar gyfer rhedeg ein busnes, darparu gwasanaethau gweinyddol a TG, diogelwch rhwydwaith, i atal twyll ac yng nghyd-destun addrefnu busnes neu ymarfer ailstrwythuro grŵp)<br>(b) Angenrheidiol i gydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol |
| I ddarparu cynnwys gwefan berthnasol i chi, cylchlythyrau a hysbysebion ac i fesur neu ddeall effeithiolrwydd yr hysbysebion a roddwn ichi | (a) Hunaniaeth<br>(b) Cyswllt<br>(c) Proffil<br>(ch) Defnydd<br>(d) Marchnata a Chyfathrebu<br>(dd) Technegol | Angenrheidiol ar gyfer ein buddiannau cyfreithlon (i astudio sut mae cwsmeriaid yn defnyddio ein gwasanaethau, i'w datblygu, i dyfu ein busnes ac i lywio ein strategaeth farchnata) |
| I ddefnyddio dadansoddiadau data i wella ein gwasanaethau, | (a) Defnydd<br>(b) Technegol | Angenrheidiol ar gyfer ein buddiannau cyfreithlon (i ddiffinio mathau o gwsmeriaid |

| | | |
|---|---|---|
| marchnata, perthnasau a phrofiadau cwsmeriaid | | ar gyfer ein gwasanaethau, i ddatblygu ein busnes ac i lywio ein strategaeth farchnata) |
| I wneud awgrymiadau ac argymhellion i chi am wasanaethau neu ddigwyddiadau a all fod o ddiddordeb i chi | (a) Hunaniaeth<br>(b) Cyswllt<br>(c) Defnydd<br>(ch) Proffil<br>(d) Technegol | Angenrheidiol ar gyfer ein buddiannau cyfreithlon (i ddatblygu ein gwasanaethau a thyfu ein busnes) |

**Sut rydym yn defnyddio data personol sensitif**

Mae na "gategorïau arbennig" o wybodaeth bersonol arbennig o sensitif sy'n gofyn am lefelau uwch o amddiffynfa. Mae angen i ni gael cyfiawnhad pellach dros gasglu, storio a defnyddio'r math hwn o wybodaeth bersonol.

Gallwn brosesu categorïau arbennig o wybodaeth bersonol Sensitif yn yr amgylchiadau canlynol:

1. Mewn amgylchiadau cyfyngedig, gyda'ch caniatâd penodol.

2. Lle mae ei angen er budd y cyhoedd.

Yn llai cyffredin, gallwn brosesu'r math hwn o wybodaeth lle mae ei angen mewn perthynas â hawliadau cyfreithiol neu lle mae ei angen er mwyn amddiffyn eich buddiannau (neu fuddiannau rhywun arall) ac nad ydych yn gallu rhoi eich caniatâd, neu lle rydych chi eisoes wedi gwneud y wybodaeth yn gyhoeddus.

**Cynigion hyrwyddo gennym ni**

Efallai y byddwn yn defnyddio'ch Hunaniaeth, Cyswllt, Defnydd a Phroffil i lunio barn ar yr hyn yr ydym yn ei feddwl y dymunwch ei angen neu ei angen, neu beth allai fod o ddiddordeb i chi. Dyma sut rydym yn penderfynu pa wasanaethau a chynigion a allai fod yn berthnasol i chi ( galwn hwn yn farchnata).

Byddwch yn derbyn cyfathrebiadau marchnata oddi wrthym os ydych chi wedi gofyn am wybodaeth gennym ni neu wedi prynu gwasanaethau gennym ni ac, ym mhob achos, nid ydych wedi optio allan o dderbyn deunydd marchnata gennym.

**Marchnata trydydd parti**

Byddwn yn gofyn am eich caniatâd penodol cyn i ni rannu eich data personol gydag unrhyw gwmni trydydd parti at ddibenion marchnata.

**Optio allan**

Gallwch ofyn i ni neu drydydd parti roi'r gorau i anfon negeseuon marchnata i chi drwy ddilyn y linc optio-allan ar unrhyw ddeunydd marchnata a ddanfonir i chi neu drwy gysylltu â ni.

Os byddwch yn optio allan o dderbyn y negeseuon marchnata hyn, ni fydd hyn yn berthnasol i ddata personol a ddarparwyd i ni o ganlyniad i brynu gwasanaeth, eich profiad o'n gwasanaeth neu drafodion arall.

**Newid pwrpas**

Byddwn ond yn defnyddio'ch data personol at y dibenion y cafodd ei gasglu, oni bai ein bod yn rhesymol yn ystyried bod angen inni ei ddefnyddio am reswm arall ac fod y rheswm hwnnw'n gydnaws â'r pwrpas gwreiddiol. Os hoffech gael eglurhad ynghylch sut mae'r prosesu ar gyfer y pwrpas newydd yn gydnaws â'r pwrpas gwreiddiol, cysylltwch â ni.

Os bydd angen i ni ddefnyddio eich data personol at ddiben arall, byddwn yn eich hysbysu a byddwn yn egluro'r sail gyfreithiol sy'n ein galluogi i wneud hynny.

Nodwch y gallwn brosesu eich data personol heb eich gwybodaeth neu'ch caniatâd, yn unol â'r rheolau uchod, lle mae hyn yn ofynnol neu'n cael ei ganiatáu yn ôl y gyfraith.

4. **Datgeliadau o'ch data personol**

Efallai y bydd yn rhaid i ni rannu eich data personol gyda'r partïon a nodir isod at y dibenion a nodir yn y tabl ym mharagraff 3 uchod.

- Darparwyr gwasanaeth sy'n gweithredu fel proseswyr sy'n seiliedig yn y Deyrnas Unedig ac sy'n darparu gwasanaethau gweinyddu a TG.

- Cynghorwyr proffesiynol sy'n gweithredu fel proseswyr neu gyd-reolwyr gan gynnwys bargyfreithwyr, siambrau bar-gyfreithwyr, cyfreithwyr eraill, bancwyr, archwilwyr ac yswirwyr sy'n seiliedig yn y Deyrnas Unedig ac sy'n darparu gwasanaethau ymgynghori, bancio, cyfreithiol, yswiriant a chyfrifo.

- Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yng nghwrs achosion cyfreithiol sy'n sail i'r cyfarwyddiadau y rhoesoch i ni er mwyn i ni eich cynrychioli chi.

- Partïon eraill (neu eu cynrychiolwyr) sydd yn ymwneud a thrafodion cyfreithiol neu anghydfod sydd yn sail i'r rheswm i chi roi cyfarwyddiadau i ni eich cynrychioli chi.

- Cyllid a Thollau EM, rheoleiddwyr ac awdurdodau eraill sy'n gweithredu fel proseswyr neu gyd-reolwyr wedi'u seilio yn y Deyrnas Unedig y bydd angen inni adrodd iddynt am weithgareddau prosesu dan rai amgylchiadau.

- Trydydd bartïon y gallem ddewis gwerthu, trosglwyddo, neu uno rhannau o'n busnes neu ein hasedau. Fel arall, efallai y byddwn yn ceisio caffael busnesau eraill neu uno â hwy. Os bydd newid yn digwydd i'n busnes, yna gall y perchnogion newydd ddefnyddio'ch data personol yn yr un modd ag a nodir yn y rhybudd preifatrwydd hwn.

- Cyrff neu gynghorwyr proffesiynol eraill yr ydym yn cydweithio â hwy ar faterion dros ein cleientiaid gan gynnwys arbennigwyr, darparwyr chwilio, neu bobl eraill sy'n gweithio ar ein rhan mewn trafodion neu anghydfod, neu i bwy yr ydym yn eich cyfeirio er mwyn derbyn cyngor ychwanegol neu ar wahan.

- Pobl neu fudiadau y byddwn yn gofyn yn gyfreithlon i gasglu dyledion ar ein rhan.

-Lle yr ydym dan oblygiad i ddatgelu data personol o dan gyfraith penodol neu drwy gorchymyn llys neu gorff rheoleiddiol gymwys.

Rydym yn ei wneud yn ofynnol i bob trydydd parti barchu diogelwch eich data personol a'i drin yn unol â'r gyfraith. Nid ydym yn caniatáu i'n darparwyr gwasanaeth trydydd parti ddefnyddio eich data personol at eu dibenion eu hunain a dim ond yn caniatáu iddynt brosesu eich data personol at ddibenion penodol ac yn unol â'n cyfarwyddiadau.

## 5. Trosglwyddo data personol y tu allan i'r AEE

Er mwyn darparu gwasanaethau i'n cleientiaid, mae angen i ni drosglwyddo data personol y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE) o dro i dro. Er enghraifft, rydym weithiau yn defnyddio trydydd parti sy'n gweithredu llwyfannau a all storio a/neu brosesu eich data personol y tu allan i'r AEE.

Sylwer efallai y bydd gan wledydd y tu allan i'r AEE amddiffyniadau diogelwch gwahanol ar waith o ran diogelu a defnyddio eich data.

Felly, os byddwn yn trosglwyddo eich data personol i wledydd y tu allan i'r AEE, byddwn yn cydymffurfio â'r rheolau cyfreithiol perthnasol sy'n llywodraethu trosglwyddiadau o'r fath ac yn cymryd camau rhesymol i sicrhau bod eich data yn cael ei drin yn ddiogel.

Yn anffodus, nid yw trosglwyddo gwybodaeth drwy'r rhyngrwyd yn gwbl ddiogel. Er y byddwn yn gwneud ein gorau i ddiogelu eich data personol, ni allwn warantu diogelwch eich data a drosglwyddir i'n gwefan; mae unrhyw drosglwyddiad ar eich risg eich hun. Unwaith y byddwn wedi derbyn eich gwybodaeth, byddwn yn defnyddio gweithdrefnau llym a gweithdrefnau diogelwch i geisio atal mynediad heb awdurdod.

## 6. Diogelwch data

Rydym wedi rhoi mesurau diogelwch priodol ar waith i atal eich data personol rhag cael ei golli, ei ddefnyddio mewn ffordd anawdurdodedig, ei newid neu ei ddatgelu yn ddamweiniol. Yn ogystal, rydym yn cyfyngu mynediad i'ch data personol i'r cyflogai, asiantau, contractwyr a thrydydd partïon eraill y mae ganddynt reswm busnes i wybod amdano. Byddant ond yn prosesu eich data personol ar ein cyfarwyddiadau ac maent yn ddarostyngedig i ddyletswydd cyfrinachedd.

Rydym wedi rhoi gweithdrefnau ar waith i ddelio ag unrhyw dorri rheolau data personol a amheuir a byddwn yn eich hysbysu chi ac unrhyw reoleiddiwr perthnasol o doriad rheolau data personol lle mae'n ofynnol i ni wneud hynny yn gyfreithiol.

Mae'n bosibl y bydd gofyn i ni storio eich data personol am gyfnod hirach, mewn amgylchiadau fel anghydfodau parhaus neu bosibl. Yn yr achos annhebygol y bydd gofyn i ni wneud hynny, byddwn yn parhau i storio a phrosesu eich data personol yn unol â'r hysbysiad preifatrwydd hwn.

## 7. Cadw data

**Am ba hyd y byddwch chi'n defnyddio fy nata personol?**

Byddwn ond yn cadw eich data personol cyn belled ag y bo'n angenrheidiol i gyflawni'r dibenion y casglwyd y data ar eu cyfer, gan gynnwys at ddibenion bodloni unrhyw ofynion cyfreithiol, cyfrifyddu neu adrodd.

Er mwyn pennu'r cyfnod cadw priodol ar gyfer data personol, rydym yn ystyried swm, natur a sensitifrwydd y data personol, y perygl posibl o'r niwed o ddefnyddio neu ddatgelu'ch data personol heb awdurdod, y dibenion yr ydym yn prosesu eich data personol ar eu cyfer, os medrwn gyflawni'r dibenion hynny trwy ddulliau eraill, a'r gofynion cyfreithiol perthnasol.

Mewn rhai amgylchiadau, gallwch ofyn i ni ddileu eich data: gwelwch Gofyn am ddileu isod am fwy o wybodaeth.

Mewn rhai amgylchiadau, efallai y byddwn yn troi eich data personol i fod yn anhysbys (fel na all fod yn gysylltiedig â chi bellach) at ddibenion ymchwil neu ddibenion ystadegol, ac os felly, efallai y byddwn yn defnyddio'r wybodaeth hon am gyfnod amhenodol heb rybudd pellach i chi.

**8. Eich hawliau cyfreithiol**

O dan rai amgylchiadau, mae gennych hawliau dan gyfreithiau diogelu data mewn perthynas â'ch data personol.

Mae gennych yr hawl i:

- **Ofyn am fynediad** i'ch data personol (gelwir yn gyffredin fel "cais am fynediad deiliad data"). Mae hyn yn eich galluogi i dderbyn copi o'r data personol sydd gennym amdanoch chi ac i wirio ein bod yn ei brosesu'n gyfreithlon.
- **Ofyn am gywiro'r** data personol yr ydym yn ei gadw amdanoch chi. Mae hyn yn eich galluogi i gywiro unrhyw ddata anghyflawn neu anghywir sydd gennym amdanoch chi, er efallai y bydd angen i ni wirio cywirdeb y data newydd a roddwch i ni.
- **Ofyn am ddileu** eich data personol. Mae hyn yn eich galluogi i ofyn i ni ddileu data personol lle nad oes rheswm da dros barhau i'w brosesu. Mae gennych hefyd yr hawl i ofyn i ni ddileu eich data personol lle rydych wedi arfer eich hawl i wrthwynebu'r prosesu (gweler isod), lle efallai y byddwn wedi prosesu'ch gwybodaeth yn anghyfreithlon neu lle mae gofyn i ni ddileu eich data personol i gydymffurfio â chyfraith leol. Sylwch, fodd bynnag, na fyddwn bob amser yn gallu cydymffurfio â'ch cais i ddileu am resymau cyfreithiol penodol ac fe fyddwn yn rhoi gwybod i chi, os yw hyn yn berthnasol, ar adeg eich cais.
- **Wrthwynebu prosesu** eich data personol lle rydyn ni'n dibynnu ar fudd cyfreithlon (neu rai trydydd parti) ac mae rhywbeth am eich sefyllfa benodol sy'n eich gwneud yn awyddus i wrthwynebu prosesu ar y sail hon gan eich bod yn teimlo ei fod yn effeithio ar eich hawliau a'ch rhyddid sylfaenol. Mae gennych hefyd yr hawl i wrthwynebu lle rydym yn prosesu eich data personol at ddibenion marchnata uniongyrchol. Mewn rhai achosion, efallai y byddwn yn medru arddangos bod gennym sail gyfreithlon gref i brosesu eich gwybodaeth sy'n trechu eich hawliau a'ch rhyddid.
- **Ofyn am gyfyngu ar brosesu** eich data personol. Mae hyn yn eich galluogi i ofyn i ni atal prosesu eich data personol yn y senarios canlynol: (a) os ydych chi am i ni sefydlu cywirdeb y data; (b) lle mae ein defnydd o'r data yn anghyfreithlon ond nad ydych am i ni ei ddileu; (c) lle mae angen i ni ddal y data hyd yn oed os nad ydym bellach ei angen gan y bydd ei angen arnoch i sefydlu, ymarfer neu amddiffyn hawliadau cyfreithiol; neu (ch) eich bod wedi gwrthwynebu ein defnydd o'ch data ond mae angen i ni wirio os oes gennym sail gyfreithiol i'w ddefnyddio sy'n trechu eich gwrthwynebiad.
- **Ofyn am drosglwyddo** eich data personol i chi neu i drydydd parti. Byddwn yn darparu i chi, neu drydydd parti o'ch dewis, eich data personol mewn fformat strwythuredig, sy'n gyffredin ei ddefnydd, ac sy'n ddarllenadwy ar bapur. Noder mae'r hawl hwn ond yn berthnasol i wybodaeth awtomataidd y rhoddoch ganiatad i ni ei ddefnyddio yn lle cyntaf, ac a ddefnyddiwyd i berfformio contract gyda chi.
- **Dynnu'ch caniatâd yn ôl ar unrhyw adeg** lle rydym yn dibynnu ar ganiatâd i brosesu eich data personol. Fodd bynnag, ni fydd hyn yn effeithio ar gyfreithlondeb unrhyw brosesu a gynhelir cyn i chi dynnu eich caniatâd yn ôl. Os byddwch yn tynnu'ch caniatâd yn ôl, efallai na fyddwn yn gallu darparu rhai cynnyrch neu wasanaethau i chi. Byddwn yn eich cynghori os yw hyn yn wir ar yr adeg y byddwch yn tynnu'ch caniatâd yn ôl.

Os hoffech chi ymarfer unrhyw un o'r hawliau a nodir uchod, cysylltwch â ni.

**Nid oes angen ffi fel arfer**

Ni fydd yn rhaid i chi dalu ffi i gael gafael ar eich data personol (nac i arfer unrhyw un o'r hawliau eraill). Fodd bynnag, mae'n bosibl y byddwn yn codi ffi resymol os yw eich cais yn amlwg yn ddi-sail, yn ailadroddus neu'n ormodol. Fel arall, efallai y byddwn yn gwrthod cydymffurfio â'ch cais o dan yr amgylchiadau hyn.

**Yr hyn y gallai fod arnom ei angen gennych**

Efallai y bydd angen i chi ofyn am wybodaeth benodol gennych i'n helpu i gadarnhau pwy ydych chi a sicrhau eich hawl i gael mynediad at eich data personol (neu i arfer unrhyw un o'ch hawliau eraill). Mesur diogelwch yw hwn i sicrhau nad yw data personol yn cael ei ddatgelu i unrhyw un sydd heb hawl i'w dderbyn. Hefyd, mae'n bosibl y byddwn yn cysylltu â chi i ofyn i chi am ragor o wybodaeth ynghylch eich cais i gyflymu ein hymateb.

**Terfyn amser i ymateb**

Ceisiwn ymateb i bob cais dilys o fewn un mis. O bryd i'w gilydd, bydd yn cymryd mwy na mis i ni os bydd eich cais yn arbennig o gymhleth neu os ydych wedi gwneud nifer o geisiadau. Yn yr achos hwn, byddwn yn rhoi gwybod i chi ac yn eich hysbysu am y wybodaeth ddiweddaraf.